

TRIBIWNLYS PRISIO CYMRU

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2017-2018

Tabl Cynnwys

Adrannau	Tudalen
Rhagair gan Lywydd Tribiwnlys Prisiau Cymru – Carol Cobert	3
Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr – Andrew Shipsides	4
1. Swyddogaeth a sgôp y Tribiwnlys	5
2. Diwygiadau i reoliadau statudol llywodraethu'r tribiwnlys	6
3. Ailstrwythuro'r sefydliad a chynllun arbedion pum mlynedd	7
4. Llwyth gwaith, apeliadau pellach a chwynion	8
5. Aelodaeth a hyfforddiant	9
6. Y Cyngor Llywodraethu	10
7. Staffio	11
8. Cyllid	12

Datganiadau wedi'u llofnodi gan y Prif Weithredwr (fel sy'n ofynnol yn Nogfen Fframwaith Tribiwnlys Prisiau Cymru – Llywodraeth Cymru)

Datganiad Llywodraethu	14
Datganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu	15

Atodiadau

A	Llwyth gwaith – ffigurau cymharol y pedair blynedd ddiwethaf	17
B	Data Clirio Apeliadau 2017/2018	18
C	Dadansoddiad oedran a rhywedd yr aelodaeth (ar 31 Mawrth 2018)	19
Ch	Gwariant Tribiwnlys Prisio Cymru 2017/2018	20
D	Cyfanswm gwariant – ffigurau cymharol y pum mlynedd ddiwethaf	21
Dd	Cyfrif y Cynllun Dileu Swyddi	22
E	Dangosyddion Perfformiad Allweddol – tabl canlyniadau	23
F	Y Strwythur wedi'i ailfodelu (ers Hydref 2017)	24
Ff	Newidiadau strwythurol allweddol yng nghynllun pum mlynedd Tribiwnlys Prisio Cymru	25

Rhagair gan Lywydd Tribiwnlys Prisio Cymru

Mae'r Tribiwnlys wedi gweld llawer o newid eleni.

Roedd ein cyllideb yn wynebu toriad sylweddol, a oedd yn golygu bod rhaid i ni fod yn ddarbodus gyda'n gwario. Gan fod dau draean o'n holl wariant yn mynd ar gostau staffio cyflwynwyd ailstrwythuro arwyddocaol o ran y gweithlu, ac rydym ni wedi dechrau rhoi cynllun pum mlynedd y Cyngor Llywodraethu ar waith.

Y prif gam cyntaf oedd cyflwyno cynllun ymddeol yn gynnwys/dileu swyddi yn wirfoddol. O ganlyniad i hyn bu'n rhaid i ni ddweud ffarwel trist, ond cyfeillgar, wrth uwch aelodau staff fu'n gwasanaeth am gyfnod maith. Roedd Mrs. Wendy Beynon a Dr. Ann Smith yn Glercod Rhanbarthol, ac roedd y ddwy wedi rhoi mwy na 30 mlynedd o wasanaeth i'r Tribiwnlys mewn nifer o wahanol swyddi dros y blynyddoedd. Nhw oedd asgwrn cefn ein darpariaeth gwasanaeth Cymraeg, y ddwy'n rhugl yn yr iaith ac yn weithgar yn hybu defnydd y Gymraeg. Gwnaeth y ddwy gynorthwyo'n fawr gyda'n paratoadau ar gyfer Safonau'r Iaith yn ystod y blynyddoedd diweddar. Roeddwn i a'r aelodau ynghyd â'r staff yn drist eu gweld yn gadael; ond fe wnaethom ni ddymuno'r gorau iddynt yn eu hymddeoliadau, a ddechreuodd ar ddiwedd mis Medi.

Yn ogystal â siâp newydd i'n strwythur staffio, gwelwyd siâp newydd i aelodaeth y Tribiwnlys a'r Cyngor Llywodraethu o ganlyniad i ddiwygio'r rheoliadau statudol, a gyflwynwyd ym mis Rhagfyr. Cynhwysir manylion yn newidiadau hyn yn yr adroddiad hwn. Un o'r newidiadau fu lleihad arwyddocaol yn ein haelodaeth trwy gynllun ymadael gwirfoddol. Rwy'n ddiolchgar i bawb a benderfynodd roi'r gorau iddi, yn aml ar ôl blynyddoedd o wasanaeth profiadol, er mwyn i'r Tribiwnlys symud ymlaen mewn ffurf newydd meiniach.

Rydwn i hefyd yn ddiolchgar iawn i'r Prif Weithredwr, y staff a'r aelodau am eu gallu i addasu i'r fframwaith newydd. Mae'r daith wedi bod yn eithaf cymhleth a chaled ar adegau, ond rydym ni wedi dod drwyddi ar y cyd i'n galluogi ni i barhau i ddarparu gwasanaeth effeithiol a phroffesiynol.

Yn gyffredinol rydw i wedi fy argyhoeddi ein bod ni ar y trywydd cywir i ddatblygu profiad mwy boddhaus i'n haelodau, lle y byddant yn eistedd yn amlach ac yn gwrando ar fwy o achosion. Rwy'n hyderus y bydd hyn yn cyfoethogi eu harbenigedd personol ac yn caniatáu i ni fel Tribiwnlys barhau i ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf i bobl Cymru.

Diolch i bawb sy'n ymwneud â'r gwasanaeth.

Carol Cobert

Llywydd – Tribiwnlys Prisio Cymru

Cyflwyniad gan y Prif Weithredwr

Mae'r flwyddyn hon wedi bod yn hynod o brysur – gyda newid yn strwythur yr aelodaeth a'r staff. Er gwaethaf hynny rydym ni wedi llwyddo i gynyddu nifer yr apeliadau wedi eu clirio yn ystod yr un cyfnod.

Mae fy nyled yn fawr i bawb sydd wedi chwarae eu rhan yn hyn: y staff sydd wedi bod yn hynod o hyblyg ac ymatebol i'r heriau rydym ni'n eu wynebu ar y daith; aelodaeth y tribiwnlys sydd wedi prosesu llawer iawn o wybodaeth a gyflwynwyd iddynt am y newidiadau trwy gylchlythryau a digwyddiadau gwybodaeth a gynhaliwyd ym mis Medi a mis Hydref; a'r Cyngor Llywodraethu sydd wedi gwneud penderfyniadau anodd ac yna barhau i ganolbwyntio ar lwybr clir ymlaen. Mae hyn oll wedi ein galluogi i symud ymlaen yn arwyddocaol mewn cyfnod amser byr.

Mae siâp y tribiwnlys yn wahanol iawn ar ddiwedd blwyddyn yr adroddiad o'i gymharu gyda dechrau'r flwyddyn. Nid yw heriau cynllun pum mlynedd y Cyngor Llywodraethu wedi dod i ben eto, ond rydym ni wedi gwneud dechrau arwyddocaol a llwyddiannus iawn. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r manylion.

Andrew Shipsides
Prif Weithredwr – Tribiwnlys Prisio Cymru

1 Swyddogaeth a sgôp y Tribiwnlys

1.1 Bu rhai diwygiadau i'r rheoliadau statudol sy'n llywodraethu'r tribiwnlys eleni. Daethant yn weithredol ar 1 Rhagfyr 2017. Fodd bynnag, mae'r diwygiadau'n effeithio ar gyfansoddiad y tribiwnlys yn unig; nid ydynt yn effeithio ar swyddogaethau craidd y tribiwnlys o ran y mathau o apeliadau a brosesir a sut yr ymdrinnir â'r apeliadau hynny. Rhwir manylion am effeithiau'r diwygiadau yn adran ddilynol yr adroddiad hwn. Nid yw swyddogaeth a sgôp y tribiwnlys wedi newid yn ystod 2017/18.

1.2 Yn gryno, mae'r tribiwnlys yn darparu gwasanaeth am ddim y gall trethdalwyr y dreth gyngor a'r rhai sy'n talu ardrethi busnes yng Nghymru gyfeirio unrhyw anghydfod am agweddau o'u hatebolwydd ato. Yn bennaf yr agweddau hyn yw:

- Prisiad yr eiddo a ddefnyddir i gyfrifo'r atebolwydd ardrethi neu'r dreth gyngor.
- P'un ai yw unigolyn yn atebol i dalu'r dreth gyngor.
- P'un ai yw'r atebolwydd dreth gyngor a gyfrifwyd yn gywir, gan ystyried y gwahanol ddisgowntiau, eithriadau, lleihad a phremiwmiau sy'n berthnasol dan amgylchiadau penodol.

Cyn dod â mater i sylw'r tribiwnlys mae'n rhaid i'r achwynydd fod wedi ceisio datrys y mater gyda'r corff a wnaeth y penderfyniad dechreuol yn gyntaf. Yn achos prisio eiddo, y corff hwnnw yw Asiantaeth y Swyddfa Brisio (sy'n asiantaeth weithredu Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi). Ac o ran materion atebolwydd y dreth gyngor, y corff yw'r awdurdod llywodraeth leol a gyflwynodd y bil treth gyngor (a adnabyddir fel yr awdurdod bilio).

1.3 Ceir mathau eraill o apêl a gyfeirir at y tribiwnlys yn achlysurol, yn ymwneud â:

- Hysbysiadau cwblhau a gyflwynwyd gan awdurdodau bilio gyda'r nod o sefydlu dyddiad y penderfynir bod eiddo wedi'i gwblhau at ddibenion ardrethu a'r dreth gyngor.
- Cyflwyno cosbau gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio ar unigolion y penderfynodd Asiantaeth y Swyddfa Brisio eu bod wedi methu â darparu gwybodaeth y mae'n ofynnol iddynt ei rhoi yn gyfreithiol at ddibenion prisio eiddo.
- Asesiad ardrethi draeniad a wneir gan fwrdd draenio lleol.

1.4 Mae gan benderfyniadau'r tribiwnlys yn yr holl faterion hyn rym cyfreithiol. Gall y tribiwnlys adolygu rhai o'i benderfyniadau ardrethu a'r dreth gyngor os yw parti yn gwneud cais, dan amgylchiadau penodol cyfyngedig. Fel arall, caiff partion anfodlon herio'r penderfyniadau yn yr uwch lysoedd. Gall prisio ar gyfer materion ardrethu gael ei ystyried yn y Tribiwnlys Haen Uwch (Siambur Tiroedd) i ddechrau, a gall materion y dreth gyngor gael eu hysyried yn yr Uchel Lys i ddechrau (mater yn ymwneud â'r gyfraith yn unig). Ni ellir herio prisio ar gyfer materion y dreth gyngor y tu hwnt i benderfyniad y tribiwnlys; mae penderfyniad y tribiwnlys yn derfynol yn yr achosion hynny.

2 Diwygiadau i reoliadau statudol llywodraethu'r tribiwnlys

2.1 Y prif reoliadau sy'n cwmpasu cyfansoddiad a llywodraethiant y tribiwnlys yw Rheoliadau Tribiwnlys Prasio Cymru 2010 (WSI 2010 Rhif 713 (W 69)). Diwygiwyd y rheoliadau hyn ar 1 Rhagfyr 2017 trwy gyfrwng Rheoliadau Tribiwnlys Prasio Cymru (Diwygio) 2017 (WSI 2017 Rhif 941 (W 234)).

2.2 Prif effeithiau'r diwygiadau oedd:

- Dileu ymwneud awdurdodau lleol yn y broses penodi aelodau'r tribiwnlys;
- Dileu nifer penodol o aelodau i'w penodi yng nghyswllt pob ardal awdurdod lleol;
- Lleihau cyfanswm nifer yr aelodau;
- Cyfyngu uchafswm cyfnod gwasanaeth gyda'r tribiwnlys i benodiadau yn y dyfodol i 10 mlynedd (h.y. dau gyfnod o bum mlynedd yr un);
- Diddymu'r drefn ranbarthol a ddefnyddid ar ddibenion penodi aelodau i Gyngor Llywodraethu'r tribiwnlys.
- Newid cyfansoddiad y Cyngor Llywodraethu o Lywyd ynghyd â phedwar Cynrychiolydd Rhanbarthol o blith yr aelodaeth, ac un penodai Llywodraeth Cymru, i'r Llywydd ynghyd â thri Cynrychiolydd Cenedlaethol a hyd at dri penodai Llywodraeth Cymru.

2.3 Croesawyd dileu ymwneud awdurdodau lleol yn y broses penodi aelodau'r tribiwnlys gan y tribiwnlys. Roedd ymwneud awdurdodau lleol yn anachroniaeth yn deillio o'r ffaith bod y cyrff dechreuol yn rhagflaenu'r tribiwnlys (y Llysoedd Prasio Lleol a grewyd yn 1948) yn ddatblygiad yn deillio o bwyllgorau asesu ardrethu lleol a oedd yn cael eu cynnal gan awdurdodau lleol. Mae'r newid bellach yn gwahanu'r tribiwnlys yn gyfangwbl oddi wrth yr awdurdodau lleol, sydd, fel awdurdodau bilio, yn casglu ardrethi annomestig a'r dreth gyngor. Mae'r gwahanu hwn yn ei gwneud yn glir bod y tribiwnlys yn gorff barnwrol cwbl annibynnol, nad yw'n gysylltiedig gyda, na dan ddylanwad unrhyw gorff arall sy'n ymwneud â materion ardrethu neu'r dreth gyngor. Yn unol â'r rheoliadau diwygio mae'r Cyngor Llywodraethu wedi sefydlu Panel Penodi yn awr, a fydd yn gyfrifol am holl benodiadau'r tribiwnlys ei hun, yn cynnwys penodi cadeiryddion. Yn flaenorol penderfynwyd ar benodi cadeiryddion trwy etholiad gan yr aelodaeth lawn.

2.4 Nawr mae cyfanswm yr aelodaeth yn cael ei benderfynu gan y Cyngor Llywodraethu yn yr ystod o 16 i 145, yn unol ag asesiad anghenion y Cyngor. Mae hyn yn cymharu gydag amrediad o 186 i 236 yn flaenorol. Bydd terfyn uchaf yr amrediad newydd yn lleihau'n raddol dros y ddwy flynedd nesaf i 105. Penderfynodd y Cyngor Llywodraethu mae'r nifer priodol i ymdrin â'r llwyth gwaith a ragfynegir ar gyfer y blynyddoedd nesaf yw 90. Cyflwynwyd rhaglen o roi'r gorau i wasanaethu'n wirfoddol er mwyn gweithio tuag at y nifer yma. Ar ddechrau'r flwyddyn hon cyfanswm nifer yr aelodau oedd 147. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd wedi lleihau i 104 (gweler Atodiad C am fanylion).

3 **Ailstrwythuro'r sefydliad a chynllun arbedion pum mlynedd**

- 3.1 Gwnaeth y tribiwnlys addasu ei strwythur staffio yn ystod y flwyddyn, ar sail yr anghenion deul i ganfod arbedion yn y gwariant ar staffio a chyfateb y staffio i'r strwythur tribiwnlys anranbarthol a gyflwynwyd trwy ddiwygio'r rheoliadau statudol a ddisgrifiwyd yn adran 2 uchod.
- 3.2 Gwnaeth y tribiwnlys gyflwyno dau Reolwr Gweithredol cenedlaethol yn lle ei bedwar Clerc Rhanbarthol. Cyflwynwyd cynllun ymddeol yn gynnar/dileu swyddi yn wirfoddol at y diben hwn, a gyllidwyd trwy fenthycu gan Lywodraeth Cymru dan ei *Gynllun Buddsoddi i Arbed*. Cafodd y staff a oedd yn weddill eu hailfodelu'n dim cenedlaethol, yn hytrach na chael eu dynodi'n adnoddau rhanbarthol. Bellach ceir un tîm cymorth gweinyddol dan Swyddog Cyllid a Gweithredol, ac un tîm clercod tribiwnlys a arweinir gan ddau uwch glerc tribiwnlys. Dangosir y strwythur newydd yn Atodiad F.
- 3.3 Yn ychwanegol at ailfodelu'r strwythur staff, gwnaeth y Cyngor Llywodraethu gyhoeddi manylion ei gynllun arbedion pum mlynedd hefyd, gyda'r nod o arbed 20% ymhellach (yn nhermau 2017/18) erbyn 2020/21. Mae'r tribiwnlys eisoes wedi gwneud arbedion o 18% yn nhermau arian parod (heb ei addasu ar gyfer chwyddiant) ers 2013/14. Edrychwch ar Atodiad D i weld ffigurau cymharol y pum mlynedd ddiwethaf.
- 3.4 Mae Atodiad Ff yn dangos camau allweddol cynllun pum mlynedd y Cyngor Llywodraethu.

4 Llwth gwaith, apeliadau pellach a chwynion

Llwth gwaith

- 4.1 Eleni gwnaeth y tribiwnlys glirio 7,900 apêl ardrethu, 1,450 apêl prisio'r dreth gyngor ac ychydig dros 100 o apeliadau eraill amrywiol (materion atebolrwydd y dreth gyngor yn bennaf, yn cynnwys apeliadau ynghylch y cynllun gostyngiadau). Rhoir manylion yn Atodiad A, sy'n cyflwyno ffigurau cymharol yn erbyn y pedair blynedd ddiwethaf, ac Atodiad B sy'n darparu manylion am ganlyniadau eleni.
- 4.2 Gwnaeth y tribiwnlys gyflawni ei fesurau Dangosydd Perfformiad Allweddol ar gyfer rhestru a chyhoeddi penderfyniadau (cyfeiriwch at Atodiad E, sy'n cynrychioli canlyniadau'r holl Ddangosyddion Perfformiad Allweddol). Yr unig ddangosydd na chafodd ei gyflawni eleni oedd canran y ceisiadau adolygu penderfyniad mewn ymateb i benderfyniadau atebolrwydd y dreth gyngor a gyhoeddwyd. Mae'r Dangosydd Perfformiad yn <5%, a'r canlyniad oedd 8.5%. Fodd bynnag, roedd cyfanswm nifer y penderfyniadau atebolrwydd y dreth gyngor yn isel (35). Gwir nifer y ceisiadau oedd tri.

Apeliadau pellach

- 4.3 Cafodd tair apêl eu cofrestru gyda'r Uwch Dribiwnlys (Siambwr Tiroedd) eleni yn erbyn penderfyniadau ardrethu Tribiwnlys Prisio Cymru, gyda dwy wedi eu datrys rhwng y partïon wedi hynny trwy orchymyn cydsyniad. Mae un apêl yn parhau'n agored.
- 4.4 Cyfeiriwyd un achos treth gyngor at yr Uchel Lys. Yn wreiddiol enwyd Tribiwnlys Prisio Cymru fel gwrthapelydd yn y mater, gan fod yr achos wedi'i gofrestru gyda'r Llys dan y rheol Gweithdrefn Sifil anghywir. Gwrthwynebodd y tribiwnlys, a rhoddwyd yr awdurdod bilio perthnasol yn sefyllfa'r gwrthapelydd yn dilyn gwrandawriad byr. Dyfarnwyd costau i'r tribiwnlys yn y mater. Roedd yr apêl statudol dan y cyfansoddiad cywir i'w glywed yn dilyn diwedd blwyddyn yr adroddiad hwn. Bydd manylion terfynol yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad ar gyfer 2018/19.

Cwynion

- 4.5 Cyflwynwyd un gŵyn i'r Ombwdsmon yn ystod y flwyddyn ynghylch penderfyniad tribiwnlys. Gwrthododd yr Ombwdsmon ymchwilio gan nad oedd y mater yn dod o dan faes yr Ombwdsmon.

5 Aelodaeth a hyfforddiant

Aelodaeth

- 5.1 Fel y cofnodir ym mharagraff 2.4 uchod, lleihaodd yr aelodaeth o 147 i 104 yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i raglen wirfoddol rhoi'r gorau i wasanaethu a gyflwynwyd gan y Cyngor Llywodraethu i gyfateb nifer yr aelodaeth i'r anghenion llwyth gwaith yn well. Roedd y nifer blaenorol yn ormodol gan arwain at sefyllfa lle'r oedd aelodau'n cael eu galw i wrandawiadau tribiwnlys yn anaml, gan gyfyngu ar gyfleoedd i aelodau unigol gael a chynnal profiad gwrandawiadau. Y targed ar gyfer aelodaeth yw 90 ar hyn o bryd, a fydd yn galluogi aelodau i eistedd mewn gwrandawriad isafswm o bedair neu bum gwaith y flwyddyn.
- 5.2 Mae'r rhaglen wirfoddol rhoi'r gorau i wasanaethu wedi cynyddu proffil oedran yr aelodau mewn termau canrannau. Fodd bynnag, mae'r tueddiad hwn yn debygol o gael ei wyrdroi pan fo'r cyfnodau swydd cyfredol yn dod i ben a'n bod yn chwilio am aelodau newydd. Mae'r rhaglen rhoi'r gorau i wasanaethu wedi gwella canran yr aelodau benywaidd hefyd, er bod y gwir nifer yn is nag yn flaenorol. Dangosir y proffil oedran a rhywedd cyfredol yn Atodiad C.

Hyfforddiant

- 5.3 Cyflwynwyd moratoriwm ar hyfforddiant eleni er mwyn rhyddhau cronfeydd ar gyfer y costau ailstrwythuro. Bwriedir ailgyflwyno rhaglen hyfforddiant yn 2018/19.
- 5.4 Serch hynny, gwnaeth y Cyngor Llywodraethu gynnal dau "ddigwyddiad rhannu gwybodaeth" i'r aelodau ym mis Medi a Hydref (un yn Llangollen ac un ym Mhenybont-ar-Ogwr), i roi manylion am gynllun pum mlynedd y Cyngor.

6 Y Cyngor Llywodraethu

- 6.1 Mae datganiad llywodraethu'r tribiwnlys ar dudalen 14 yr adroddiad hwn.
- 6.2 Fel y disgrifiwyd yn adran 2, cafodd cyfansoddiad y Cyngor Llywodraethu ei ailfodelu trwy ddiwygio'r rheoliadau statudol ynghanol y flwyddyn. Daeth y pedwar Cynrychiolydd Rhanbarthol yn Gynrychiolwyr Cenedlaethol. Roedd y rheoliadau'n darparu cyfnod trosiannol, yn caniatáu i bedwar Cynrychiolydd Cenedlaethol fod ar y Cyngor am gyfnod (yn hytrach na thri, fel sy'n ofynnol yn y dyfodol). Daeth y cyfnod hwn o bedwar cynrychiolydd i ben ym mis Mawrth pan orffennodd cyfnod Mr Rhys Prytherch yn y swydd.
- 6.3 Ar ddiwedd blwyddyn yr adroddiad hwn aelodau'r Cyngor Llywodraethu oedd:
- | | | |
|-----------------------|---|----------------------------|
| Miss Carol Cobert | - | Llywydd |
| Mr Anthony Clatworthy | - | Cynrychiolydd Cenedlaethol |
| Mr Rheinallt Evans | - | Cynrychiolydd Cenedlaethol |
| Mr Lyndon Moore | - | Cynrychiolydd Cenedlaethol |
| Mr Russell Lawson | - | Penodai Llywodraeth Cymru |
- 6.4 Bydd cyfnod swydd yr holl Gynrychiolwyr Cenedlaethol uchod yn dod i ben yn 2018/19. Cynhelir etholiadau i lenwi'r swyddi gwag. Gall y cynrychiolwyr cyfredol sefyll i'w haillethol os ydynt yn dymuno.

7 Staffio

- 7.1 Lleihaodd y lefel staffio cyffredinol yn y flwyddyn o 18.8 yn cyfateb i amser llawn i 14.6. Roedd swydd 0.6 yn parhau'n wag ar ddiwedd y flwyddyn.
- 7.2 Lleihaodd nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl i bedwar (o bump). Mae chwech aelod o staff wedi bod yn astudio'r Gymraeg gyda chefnogaeth Tribiwnlys Prisiau Cymru yn ystod y flwyddyn.
- 7.3 Ar ddiwedd blwyddyn yr adroddiad roedd oedran cyfartalog y staff ychydig dros 46.5 oed (ychydig yn is na'r llynedd); ac roedd yr hyd gwasanaeth cyfartalog ychydig dros 18 mlynedd (blwyddyn yn fwy na'r llynedd).
- 7.4 Nifer cyfartalog y dyddiau absenoldeb salwch fesul pob aelod o staff eleni oedd 13.7. Mae'r cyfartaledd hwn yn gamarweiniol o uchel gan ei fod yn cynnwys absenoldeb salwch tymor hir dau aelod o staff. Y cyfartaledd ar gyfer staff nad ydynt ar absenoldeb salwch tymor hir oedd 3.38 (diwrnod yn llai na'r flwyddyn flaenorol).

8 Cyllid

- 8.1 Gwariant y tribiwnlys eleni oedd £1,112,000 (o gyllideb gwerth £1,114,000). Gwariwyd 73% ar gostau staffio, a 23% ar gostau cynnal gweithredol eraill. Talwyd bron i £27,000 o'r gyllideb staffio i gostau cynllun dileu swyddi. Mae costau'r cynllun dileu swyddi yn gyfrif ar wahân i brif gyfrif refeniw'r tribiwnlys ar gyfer y flwyddyn. Dangosir y cyfrif refeniw yn Atodiad D, a chyfrif y cynllun dileu swyddi yn Atodiad Dd.
- 8.2 Cyfanswm cost y cynllun dileu swyddi oedd ychydig o dan £202,000. Cafwyd mwyafrif y swm yma (£175,000) trwy fenthycia o *Gynllun Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cymru*. Mae'r benthyciad yn ad-daladwy mewn pum taliad cyfartal o £35,000 y flwyddyn yn dechrau yn 2018/19. Nid yw llog yn daladwy.
- 8.3 Dengys Atodiad Ch bod y tribiwnlys wedi gwneud arbedion o 14% yn y costau ac eithrio costau staffio o'i gymharu gyda'r flwyddyn flaenorol. Ers 2013/14 mae'r tribiwnlys wedi lleihau ei wariant ar gostau ac eithrio costau staffio dros 43% mewn telerau arian parod pur.

Datganiadau

**(fel sy'n ofynnol yn Nogfen Fframwaith Tribiwnlys Prisio Cymru –
Llywodraeth Cymru)**

Datganiad Llywodraethu

Llywodraethir Tribiwnlys Prisio Cymru gan ei Gyngor Llywodraethu, sy'n cynnwys:


- Llywydd y Tribiwnlys
- y tri Cynrychiolydd Cenedlaethol
- ac, os y'i penodir, hyd at dri unigolyn a benodir gan Lywodraeth Cymru.

Rhagnodir y Cyngor a'i gyfansoddiad gan Reoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010 [WSI 2010 Rhif 713 (W69)], fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru (Diwygio) [WSI 2017 Rhif 941 (W 234)].

Mae'n rhaid i'r Llywydd a'r Cynrychiolwyr Cenedlaethol fod yn aelodau'r Tribiwnlys ac fe'u hetholir gan aelodaeth y Tribiwnlys am gyfnod o dair blynedd. Gallant sefyll i gael eu hailethol ar ddiwedd y cyfnod yn y swydd.

Nodir manylion cydgyfrifoldebau'r Cyngor Llywodraethu, a chyfrifoldebau personol unigol y Llywydd, a chyfrifoldebau unigol pob Cynrychiolydd Cenedlaethol a Phenodai Llywodraeth Cymru yn Nogfen Fframwaith Tribiwnlys Prisio Cymru, a lofnodir dan gymeradwyaeth Ysgrifennydd Cyllid a Llywodraeth Leol y Cabinet gan swyddog Llywodraeth Cymru a Phrif Weithredwr y Tribiwnlys. Mae Prif Weithredwr y Tribiwnlys yn llofnodi ar ran y Tribiwnlys ar ôl derbyn cymeradwyaeth gan y Cyngor Llywodraethu.

Mae Cyngor Llywodraethu'r Tribiwnlys yn cynnal ei swyddogaethau mewn modd sy'n gyson ag Egwyddorion Canolbwyntio ar Ddinasyddion Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys y Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus a nodir gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (Pwyllgor Nolan).




Andrew Shipsides
Prif Weithredwr Tribiwnlys Prisio Cymru

Datganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Mae Prif Weithredwr Tribiwnlys Prisio Cymru yn gyfrifol am sicrhau bod adnoddau ariannol y Tribiwnlys yn cael eu rheoli yn unol â'r egwyddorion a'r gofynion rheolaeth ariannol penodol a nodir yn Nogfen Fframwaith Tribiwnlys Prisio Cymru a dogfennau ariannol Llywodraeth a Chynulliad Cymru a memoranda y cyfeirir atynt yn y Ddogfen Fframwaith.

Mae'r Prif Weithredwr yn atebol yn bersonol i'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol dynodedig yn adran Llywodraeth Cymru sy'n noddi'r Tribiwnlys. Yn ei dro mae'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol yn atebol i Lywodraeth a Chynulliad Cymru.

Gall y Prif Weithredwr ddirprwyo gweinyddiaeth o ddydd i ddydd ei gyfrifoldebau i gyflogeion y Tribiwnlys, ond mae'n parhau'n gyfrifol ac yn atebol yn bersonol amdanynt.



Andrew Shipsides
Prif Weithredwr Tribiwnlys Prisio Cymru

Atodiadau

- A Llwyth gwaith – ffigurau cymharol y pum mlynedd ddiwethaf**
- B Data Clirio Apeliadau 2017/2018**
- C Dadansoddiad oedran a rhywedd yr aelodaeth (ar 31 Mawrth 2018)**
- Ch Gwariant Tribiwnlys Prisio Cymru 2017/2018**
- D Cyfanswm gwariant – ffigurau cymharol y pum mlynedd ddiwethaf**
- Dd Cyfrif y Cynllun Dileu Swyddi**
- E Dangosyddion Perfformiad Allweddol – tabl canlyniadau**
- F Y Strwythur wedi'i ailfodelu (ers Hydref 2017)**
- Ff Newidiadau strwythurol allweddol yng nghynllun pum mlynedd Tribiwnlys Prisio Cymru**

– ffigurau cymharol y pum mlynedd ddiwethaf:

		Prisio Ardrethu Annomestig		Prisio'r Dreth Gyngor		Pob apêl arall	
2013-14							
Mewnbyn	Dygwyd ymlaen	7536		547		22	
	Derbyniwyd	4822		1835		100	
Clirwyd	Datryswyd gan y partion	6599	85%	1284	76%	15	19%
	Penderfynwyd gan y tribiwnlys	1191	15%	403	24%	62	81%
2014-15							
Mewnbyn	Dygwyd ymlaen	4568		695		45	
	Derbyniwyd	4198		1700		97	
Clirwyd	Datryswyd gan y partion	5232	85%	1398	77%	22	22%
	Penderfynwyd gan y tribiwnlys	939	15%	416	23%	78	78%
2015-16							
Mewnbyn	Dygwyd ymlaen	2595		581		42	
	Derbyniwyd	8719		1796		104	
Clirwyd	Datryswyd gan y partion	1719	89%	1552	83%	59	55%
	Penderfynwyd gan y tribiwnlys	204	11%	312	17%	49	45%
2016-17							
Mewnbyn	Dygwyd ymlaen	9391		513		38	
	Derbyniwyd	3069		1695		85	
Clirwyd	Datryswyd gan y partion	3323	92%	1282	80%	38	49%
	Penderfynwyd gan y tribiwnlys	277	8%	322	20%	40	51%
2017-18							
Mewnbyn	Dygwyd ymlaen	8860		604		45	
	Derbyniwyd	7061		1338		120	
Clirwyd	Datryswyd gan y partion	6516	83%	1126	78%	34	31%
	Penderfynwyd gan y tribiwnlys	1291	17%	317	22%	77	69%
Dygwyd ymlaen		8114		499		54	

Data Clirio Apeliadau 1 Ebrill 2017 - 31 Mawrth 2018

Atodiad B

Ystadegau Apêl

01/04/17 - 31/03/18

Y Dreth Gyngor	<i>D/Y</i>	<i>Derbyniwyd</i>	<i>Datryswyd</i>	<i>Penderfynwyd</i>	<i>C/Y</i>
Prisio	596	1306	1111	303	488
Hysbysiad Annilysrwydd	8	32	15	14	11
Hysbysiad Cosb	0	1	0	0	1
Hysbysiad Cwblhau	1	0	0	1	0
Atebolrwydd	15	45	8	35	17
Gostyngiad	25	57	24	23	35
Adolygu penderfyniad	0	7	0	7	0
Cyfanswm	645	1448	1158	383	552

Ardrethu Annomestig	<i>D/Y</i>	<i>Derbyniwyd</i>	<i>Datryswyd</i>	<i>Penderfynwyd</i>	<i>C/Y</i>
Prisio 2017	0	3537	187	0	3350
Prisio 2010	8773	3492	6315	1283	4667
Prisio 2005	54	0	2	0	52
Hysbysiad Annilysrwydd	33	32	12	8	45
Hysbysiad Cosb	4	1	2	2	1
Hysbysiad Cwblhau	0	0	0	0	0
Adolygu penderfyniad	0	9	0	9	0
Cyfanswm	8864	7071	6518	1302	8115

Prif gyfanswm	9509	8519	7676	1685	8667
----------------------	------	------	------	------	------

Dadansoddiad oedran a rhywedd yr aelodaeth (ar 31 Mawrth 2018)

Oedran	Dan 30		30 -39		40-49		50-59		60-69		70-79		Dros 80		Cyfanswm	
Rhywedd	G	B	G	B	G	B	G	B	G	B	G	B	G	B	G	B
Cyfanswm	0	0	0	0	3	1	9	6	17	7	35	13	12	1	76	28
Canran o gyfanswm yr aelodaeth	0.0%		0.0%		3.8%		14.4%		23.1%		46.2%		12.5%		73.1%	26.9%

Nodyn

- 1 Lleihaodd cyfanswm yr aelodaeth o 147 y llynedd i 104, yn bennaf trwy gynllun gwirfoddol rhoi'r gorau i wasanaethu.
- 2 Cyfanswm nifer yr aelodau sy'n aelodau awdurdod lleol yw 13 – lleihad o 46% ar y llynedd, ac yn arwyddocaol is na'r gyfran uchafswm a ganiateir gan reoliadau statudol llywodraethu'r tribiwnlys cyn eu diwygio ym mis Rhagfyr 2017 (a oedd yn nodi uchafswm o draean y cyfanswm). Nid yw'r rheoliadau diwygiedig yn nodi cyfran.

Atodiad Ch

Maes gwariant	2017/18		2016/17	
	Swm	Canran	Swm	Canran
Costau staff (ac eithrio pensiynau)	648,133	58.29%	695,909	57.82%
Costau pensiynau	155,756	14.01%	147,878	12.29%
Is-gyfanswm	803,889	72.30%	843,787	70.11%
Costau swyddfeydd	87,201	7.84%	100,705	8.37%
Gwariant ar gyfriaduron	132,967	11.97%	142,479	11.84%
Gweinyddiaeth ganolog	47,911	4.31%	40,414	3.36%
Tribiwnlysoedd	23,960	2.15%	30,000	2.49%
Llywodraethu	7,808	0.70%	19,021	1.58%
Hyfforddiant aelodau	5,592	0.50%	20,106	1.67%
Hyfforddiant staff	2,528	0.23%	7,072	0.59%
Is-gyfanswm	307,967	27.70%	359,796	29.89%
Cyfanswm	1,111,856		1,203,584	

Nodyn: Mae'r costau staff yn cynnwys cyfraniad o £26,750 i Gynllun Dileu Swyddi Tribiwnlys Prisio Cymru. Ariannwyd cost y Cynllun Dileu Swyddi o £201,750 yn bennaf trwy fenthycia £175,000 gan raglen *Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cymru*. Mae'r benthyciad yn ddi-log ac mae'n bosibl ei ad-dalu dros bum mlynedd (ar £35,000 y flwyddyn, gan ddechrau yn 2018/19). Cyfrifir gwariant yr arian benthyciad ar wahân i'r cyfrif referniw blynyddol uchod. Bydd ad-daliadau'r benthyciad yn rhan o'r cyfrifon referniw yn y dyfodol.

Cyfanswm gwariant – ffigurau cymharol y pum mlynedd ddiwethaf

Blwyddyn ariannol	Cyfanswm gwariant blynyddol (£)	Canran arbedion o'i gymharu gyda 2013/14	Costau staffio blynyddol (£)	Canran y cynnydd neu leihad ar y flwyddyn flaenorol	Costau cynnal ac eithrio staffio (£)	Canran y lleihad ar y flwyddyn flaenorol
2013-14	1,358,330		811,711		546,619	
2014-15	1,305,586	3.88%	826,208	+1.79%	479,378	-12.30%
2015-16	1,249,787	7.99%	839,169	+1.57%	410,618	-14.34%
2016-17	1,203,584	11.39%	843,787	+0.55%	359,796	-12.38%
2017-18	1,111,856	18.15%	803,889	-4.73%	307,967	-14.41%

Nodiadau

Y dyraniad cyllid ar gyfer 2018/19 yw £1,074,000. Os yw'r gwariant yn unol â'r gyllideb, bydd cyfanswm yr arbedion o'i gymharu â 2013/14 yn 21%.

Mae'r tabl yn dangos gostyngiad cyffredinol mewn costau ac eithrio costau staffio o £238,652 (h.y. 43.7%)

Cyfrif y Cynllun Dileu Swyddi


Cyfanswm cost y cynllun	£201,750
Cyllid:	
Cyllideb 2017-18	£ 26,750
Benthyca o gynllun Buddsoddi i Arbed	£175,000
	<hr/>
	£201,750
	<hr/>
Balans y cyfrif	£0
	<hr/> <hr/>

Dangosyddion Perfformiad Allweddol --- tabl canlyniadau


Mesur perfformiad	Targed 2017/18	Canlyniad 2017/18	Targed 2018/19	Rheswm am unrhyw newid i'r targed / neu ragor o fanylion/gwybodaeth
Cyflwyno hysbysiadau gwrandawriad ardrethu annomestig i bartïon cyn pen 8 wythnos o ddyddiad targed rhaglennu Asiantaeth y Swyddfa Brisio	90%	95.5%	90%	8201 o 8587 wedi'u rhestru
Apeliadau'r Dreth Gyngor (prasio ac atebolwydd) i'w clirio cyn pen 12 mis o'u cyflwyno i'r tribiwnlys	95%	>99%	95%	3 Prasio'r Dreth Gyngor >12 mis 4 Atebolwydd a Phrasio'r Dreth Gyngor >12 mis (o 2107 o achosion ar gael i'w rhestru)
Cyflwyno rhesymau ysgrifenedig am y penderfyniad cyn pen 28 diwrnod o ddiwedd y gwrandawriad	95%	97.6%	95%	41 wedi'u cyflwyno ar ôl 21 diwrnod (o 1685 o benderfyniadau)
Cesiadau adolygu penderfyniad Ardrethu Annomestig fel canran yr achosion Ardrethu Annomestig a benderfynwyd	<0.5%	<0.1%	<0.5%	9 cais, 1291 o benderfyniadau
Cesiadau adolygu penderfyniad Prasio'r Dreth Gyngor fel canran yr achosion Prasio'r Dreth Gyngor a benderfynwyd	<2.0%	0.1%	<2.0%	4 cais, 317 o benderfyniadau
Cesiadau adolygu penderfyniad Atebolwydd Treth Gyngor fel canran yr achosion Atebolwydd Treth Gyngor a benderfynwyd	<5.0%	8.5%	<5.0%	3 cais, 35 o benderfyniadau
Penderfyniadau a gyfeiriwyd i'r uwch lysoedd	<0.5%	<0.1%	<0.5%	4 (1685 o benderfyniadau)
Penderfyniad lle cafwyd cwyn gan un o'r partïon	<1.0%	<0.1%	<1.0%	1 (1685 o benderfyniadau)
Nifer yr honiadau ar sail rhesymol a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn erbyn y tribiwnlys	dim	dim	dim	
Nifer yr honiadau ar sail rhesymol a gyflwynwyd ynghylch cydymffurfio â'r Safonau Iaith yn erbyn y tribiwnlys	dim	dim	dim	
Y ffigur cyfartalog blynyddol fesul cyflogai o ran absenoldeb salwch i beidio â goresgyn 5 diwrnod gwaith ar gyfer 80% anolog y dosbarthiad staff llawn	<5 diwrnod	3.38	<5 diwrnod	

Y strwythur wedi'i ailfodelu (ers Hydref 2017)


Strwythur Cyffredinol



Cyfansoddiad y Cyngor Llywodraethu



Strwythur Staffio



Newidiadau strwythurol allweddol yng nghynllun pum mlynedd Tribiwnlys Prisiau Cymru

Nodiadau

- Y nod yw lleihau costau gwariant y gwasanaeth tribiwnlys yn raddol o £1,114,000 i £886,000 (yn nhermau 2017/18 – h.y. heb addasu ar gyfer chwyddiant).
- Cyflawnwyd holl nodau 2017/18.

2017/18	<p>Ailfodelu'r strwythur staffio cyffredinol (dileu swyddi)</p> <p>Lleihau'r aelodaeth (mor agos i 90 ag y bo modd)</p> <p>Cynyddu effeithlonrwydd y rhaglen restru (llai o gyfarfodydd / rhestrau hirach)</p> <p>Lleihau nifer y lleoliadau allanol a ddefnyddir / cynyddu defnydd canolfan wrandawiaid Casnewydd</p> <p>Adleoli'r tîm yn Abertawe i swyddfeydd llai yn adeilad Penllergaer</p>
2018/19	<p>Gwreiddio diwygiadau Blwyddyn 1</p> <p>Parhau i leihau'r aelodaeth</p>
2019/20	<p>Gadael y trefniadau rhannu system Technoleg Gwybodaeth gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisiau a'r Gwasanaeth Tribiwnlys / sefydlu annibyniaeth lawn i Dribiwnlys Prisiau Cymru o ran yr holl drefniadau Technoleg Gwybodaeth</p> <p>Adleoli swyddfa Casnewydd i leoliad mwy cost effeithiol, gan ddefnyddio'r cyfle a gyflwynir gan y cymal torri'r cytundeb sy'n bodoli eisoes</p> <p>Sefydlu trefn gweithio o adref i staff Abertawe ar ddiwedd y cytundeb Memorandwm Telerau Meddiannu os yw Penllergaer yn cau (neu os nad yw Penllergaer yn cau a bod gweithio o adref yn fwy cost effeithiol)</p>
2020/21	Dim newidiadau strwythurol na chyfleoedd i newid
2021/22	Defnyddio ymddeoliad(au) allweddol i leihau'r tîm rheoli gweithredol o dri i ddau. (Opsion dim costau dileu swydd)